**Gwasanaethau Fasgwlaidd – Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr - Isgyfeirio - Gwasanaeth Sydd Angen ei Wella'n Sylweddol**

Ym mis Chwefror 2022, cafodd Gwasanaethau Fasgwlaidd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr eu dynodi gennym fel Gwasanaeth sydd Angen ei Wella'n Sylweddol (SRSI).
Y meysydd a oedd yn peri pryder:

Nodwyd mater y mae angen cymryd camau brys yn ei gylch drwy Wybodaeth a gafwyd neu dystiolaeth a gasglwyd.

Nododd Adroddiad Adolygiad o Gofnodion Clinigol Coleg Brenhinol y Llawfeddygon, a gyhoeddwyd ar 20 Ionawr 2022, nifer o bryderon a oedd yn dangos bod risg i'r cleifion sy'n defnyddio'r gwasanaeth fasgwlaidd.

Roedd y pryderon hyn yn gysylltiedig â'r canlynol:
- Gwaith Tîm Amlddisgyblaethol gwael
- Dogfennaeth wael a chadw cofnodion gwael
- Ansawdd y gofal clinigol.

Ym mis Mehefin 2023, isgyfeiriwyd statws SRSI y gwasanaeth, gan fod AGIC yn fodlon bod y gwelliannau angenrheidiol wedi'u cwblhau.
Mae'n amlwg bod y bwrdd iechyd wedi gwneud ymdrechion i roi prosesau ar waith a gwneud gwelliannau yn ei wasanaethau fasgwlaidd, gyda'r nod o roi gofal diogel, amserol ac effeithiol i gleifion. Er bod y broses isgyfeirio yn gam cadarnhaol, mae angen i'r bwrdd iechyd gynnal y momentwm y mae wedi'i greu er mwyn parhau i wella'r gwasanaeth.

Darllenwch ein hadolygiad diweddaraf ar Wasanaethau Fasgwlaidd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr am ragor o wybodaeth.